# Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon

## Cofnodion Pwyllgor Adloniant, 10/11/20 – Cyfarfod Rhithiol

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr W.L.Davies, A.Hopcyn, E.R.Hughes (Cadeirydd), D.L.Jones, E.Lovgreen, R.Thomas, M.Sarnacki

---

**1.Ymddiheuriadau**

Dim

**2. Datgan Buddiant Personol**

Dim

**3.Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc)**

Dim

**4. Sul y Cofio**

Cafwyd trafodaeth yn rhoi adborth ar Sul y Cofio.

**Penderfynwyd:**

**(1) Diolch i Owain Llŷr am wneud y fidio, a gafodd ei roi ar Facebook ar y diwrnod.**

**(2) Argymell i'r Cyngor Llawn y dylid gwneud fidio bob blwyddyn, ar gyfer y rhai oedd yn methu mynychu Gwasanaeth Sul y Cofio.**

**5. Nadolig 2020**

Cyflwynwyd Cynllun Gweithredu drafft ar gyfer y Nadolig. Roedd hwn yn gynllun diwygiedig i'r un a atodwyd efo'r rhaglen gan fod pethau wedi symud ymlaen.

**Penderfynwyd diwygio'r cynllun gweithredu i ymgorffori'r newidiadau canlynol:**

**(1) Y Maes**

- **Nad oedd eisiau sustem sain ar y maes os oes un gan Siop Na-Nog yn barod. Byddai'n well ei roi ar Stryd y Plas yn agos at y gyffordd efo Stryd Fawr er mwyn sicrhau cerddoriaeth i'r rhan yna o'r dref. Awgrymwyd siarad gyda Palas Print er mwyn cael trydan ayb i'r sustem sain.**

- **Nad oedd angen peiriant eira ar y maes gan ei fod yn creu perygl llithro.**

**(2) Noson Nadoligaidd**

- **Hysbysu ar Facebook na fydd y "Noson Nadoligaidd" arferol yn cymryd lle, ond defnyddio'r neges i bwysleisio'r hyn fydd yn digwydd, er enghraifft posteri / Cystadleuaeth Ffenestri Siop / Darllediad Fyw ayb.**
- **Gan fod merch fach o'r enw Brianna wedi bod yn weithgar yn y dref, gofyn iddi hi wneud y countdown, o ran y Goeden Nadolig, gyda'r Maer i droi'r golau ymlaen**
- **Dylid trefnu i hwn gael ei ffilmio a'i ddarlledu'n fyw ar Facebook.**

**(3) Coed Nadolig**

- **Gofyn i'r Clerc gadarnhau holl ddyddiadau gosod y Goeden Nadolig i'r maes, a'r goleuadau.**
- **Ceisio cael Coeden Nadolig o Frongoch i Turf Square.**
- **Prynu addurniadau pren i'w rhannu i'r ysgolion i'r plant cael rhoi neges arnynt.**
- **Trefnu rhywun i'w addurno, gofyn i Michael Lambert i wneud hyn yn ddiogel. Dylid defnyddio Golau Solar i fynd arno.**
- **Gofyn i siopau cyfagos (a Michael Lambert) os fyddant yn fodlon i Michael Lambert ddefnyddio eu trydan i osod llifolau yn edrych ar y goeden.**

**(4) Ysgolion**

- **Angen trefnu iddynt lenwi sêr pren ar gyfer y goeden yn Turf Square.**
- **Gofyn i'r Cynghorydd Ann Hopcyn i wneud posteri ar gyfer Facebook yn hybu'r cystadleuaeth posteri.**
- **Cystadleuaeth posteri – dyddiad cau oedd y 27ain o Dachwedd, a gofynnwyd i Gynghorwyr feiriniadu.**
- **Gofyn i Brif Ddisgyblion Ysgol Syr Hugh Owen i feirniadu'r gystadleuaeth ffenestri, yn hytrach na Meiri threfi cyfagos.**

**(5) Poundstretchers**

- **Gofyn i Cyngor Gwynedd pwy sydd berchen y siop.**

**(6) Cyffredinol**

- **Nad oedd angen prynu hetiau Siôn Corn, gan fod digon yn Adeilad yr Institiwt.**
- **Dewi i brynu hylif peiriant eira.**

- **Dim angen i Michael a Marian i feirniadu'r ffenestri, disgyblion Ysgol Syr Hugh Owen i wneud.**
- **Flyer a llythyr esboniadol i hybu'r cystadleuaeth ffenestri, i'w wneud cyn penwythnos y 14eg o Dachwedd er mwyn i gynghorwyr ei rannu dros y penwythnos. Ann wedi creu cynllun yn rhannu'r dref. Taflenni Coch / Melyn a Taflen "Cymorth i fusnesau" i'w rhannu ar yr un pryd.**

**Gorffennodd y cyfarfod am 6.50 p.m.**

**Arwyddwyd _____**

**Dyddiad _____**